# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL | VOLUNTARY SECTOR LIAISON COMMITTEE |
| DYDD GWENER, 17 IONAWR 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | FRIDAY, 17 JANUARY, 2014 at 2:00 p.m. |
| SEFYDLIAD Y MERCHED, FFORDD CAERGYBI, LLANFAIRPWLL | WOMENS'S INSTITUTE HALL, HOLYHEAD ROAD, LLANFAIRPWLL |
| Swyddog Pwyllgor Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer | |

**AELODAU / MEMBERS**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Cynghorwyr/Councillors Jim Evans, Kenneth P.Hughes, Alun Mummery *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)* Alwyn Rowlands, Ieuan Williams

**SECTOR GWIRFODDOL / VOLUNTARY SECTOR**

Islwyn Humphreys (Samariaid/Samaritans) *(Cadeirydd/Chair)*
Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn)
Aled Roberts (TARAN)
Eleri Lloyd Jones (Age Cymru)
Cadi Roberts (Merched y Wawr)

**IECHYD / HEALTH**

Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Partneriaeth Cymunedol, BIPBC/Assistant Director of Community Development, BCUHB

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 3YDD HYDREF, 2013** (Tudalennau 1 - 6)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar 3ydd Hydref, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **CWRDD Â'R HERIAU - YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB 2014-15** (Tudalennau 7 - 26)

Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2014-15 fel y'u hamlinellir yn y Ddogfen Cwrdd â'r Heriau - Ymgynghori ar Gyllideb 2014 -15.

4 **PARHAD A NEWID - ADNEWYDDU'R BERTHYNAS RHWNG LLYWODRAETH CYMRU A'R TRYDYDD SECTOR YNG NGHYMRU**

Adrodd ar ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Barhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru.

5 **RHAGLEN DRAWSNEWID - Y RHYNGWYNEB GYDA'R SECTOR GWIRFODDOL** (Tudalennau 27 - 28)

Trafod y rhyngwyneb rhwng y Rhaglen Drawsnewid a'r Sector Gwirfoddol.
*(Copi o Fodel Llywodraethu'r Rhaglen Drawsnewid ynghlwm fel gwybodaeth gefndirol)*

6 **Y BROSES SGRIWTINI**

Derbyn diweddariad ar ymgysylltiad y Trydydd Sector gyda phroses sgriwtini'r Cyngor.

7 **PROSIECT LLEISIAU LLEOL**

Derbyn diweddariad ar Brosiect Lleisiau Lleol.

8 **CYFARFOD NESAF**

Cytuno ar ddyddiad a lleoliad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt.

# PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Islwyn Humphreys (Sector Gwirfoddol) (Cadeirydd)<br><br>**Awdurdod Lleol**<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Kenneth Hughes, Alun Mummery, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams<br><br>**Sector Gwirfoddol**<br><br>Eleri Lloyd Jones (Oed Cymru)<br>Aled Roberts (Taran)<br>Dilys Shaw (Cadeirydd Medrwn Môn)<br><br>**Sector Iechyd**<br><br>Mr Wyn Thomas, BIPBC Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Cymunedol |
| **WRTH LAW**: | Mr John R.Jones (Prif Swyddog, Medrwn Môn)<br>Mrs Gwen Carrington (Cyfarwyddwr Cymuned - CSYM)<br>Mr J.Huw Jones (Pennaeth Gwasanaeth, Polisi - CSYM)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cadi Roberts (Merched y Wawr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Ms Lyndsey Williams (Rheolwr Prosiect, Medrwn Môn), Mr Tristan Pritchard, Rheolwr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i Neuadd Gymuned Talwrn ar gyfer y cyfarfod hwn o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb wedi'i dderbyn.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2013.

Materion yn codi –

- Yng nghyswllt cyfranogiad y Trydydd Sector ym mhroses Sgriwtini'r Awdurdod cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) bod yr Adain Sgriwtini wedi bod mewn cyswllt gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn i fynd a'r mater hwn yn ei flaen. Eglurodd y Swyddog bod y Pwyllgor Gwaith yn diweddaru ei Raglen Waith drwy ei gyfarfodydd misol sydd yn eu tro yn bwydo i mewn ac yn rhoi gwybodaeth ar gyfer blaenoriaethau'r Rhaglen Waith Sgriwtini. Fel sydd wedi ei gytuno mae Rhaglen Waith ar y Cyd gyda'r Trydydd Sector yn seiliedig ar allbynnau'r Pwyllgor Cyswllt yn dechrau cael ei datblygu a bydd hyn yn hwyluso ymwneud y Trydydd Sector yn nhrefniadau democrataidd y Cyngor, gan gynnwys Sgriwitini.

  Cadarnhaodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei fod wedi trafod y mater gyda'r Rheolwr Sgriwtini ac y byddai'n hoffi cael sicrwydd y bydd cynnydd pendant yn cael ei wneud. Fodd bynnag, rhaid i gyfranogwyr tebygol o'r Trydydd Sector fod wedi eu hyfforddi'n briodol er mwyn sicrhau

eu bod yn dod ag ystod eang o brofiad ac arbenigedd i'r trafodaethau sgriwtini ac na fyddant ond yn bresennol yno fel cynrychiolwyr eu sefydliad unigol. Mae gan y Trydydd Sector, fodd bynnag, gronfa o unigolion sydd â dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i weithredu fel cynrychiolydd ac i weithio mewn partneriaeth. Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei fod yn ymwybodol bod y mater hwn wedi bod yn mynd yn ei flaen am beth amser ond mae'n golygu mwy na dim ond dewis unigolion i ymgymryd â'r rôl ond gwneud yn siŵr bod grŵp o bobl wedi eu hyfforddi ar gael ac yn gallu gweithredu'n effeithiol.

Cytunodd Arweinydd y Cyngor gyda'r dadansoddiad a wnaed ac atgoffodd y Pwyllgor nad yw Pwyllgorau Sgriwtini yn bwyllgorau gwleidyddol a'u bwriad yw defnyddio profiad ac arbenigedd eu haelodau i allu gwneud gwell penderfyniadau.

Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn y byddai'n cydlynu'r broses o ddewis cynrychiolwyr sgriwtini addas pan fydd yn amserol i wneud hynny.

**Nodwyd y sefyllfa. Dim camau gweithredu pellach yn codi.**

- Gan gyfeirio at y Cytundeb Compact a'r Polisi Gwirfoddoli dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) wrth y Pwyllgor ei fod wedi cael trafodaethau gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn ynglŷn â lansio'r Cytundeb Compact yn ffurfiol gyda hynny wedi ei drefnu ar gyfer 7 Tachwedd. Cadarnhaodd Prif Swyddog Medrwn Môn bod Arweinydd y Cyngor wedi ei wahodd i fod yn rhan o'r lansiad fyddai hefyd yn gymorth i bwysleisio cymeriad partneriaeth y Compact fel cytundeb tair ffordd. Cafwyd diweddariad i'r Aelodau gan y Cyfarwyddwr Cymuned ar weithredu'r Polisi Gwirfoddoli a dywedodd bod y flaenoriaeth yn parhau yn un o godi ymwybyddiaeth Penaethiaid Gwasanaeth o'r polisi a nodi'r gwirfoddolwyr sydd ar hyn o bryd yn weithredol yn y system a sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i gefnogi'r grŵp hwnnw ac i nodi cyfleon wedi hynny.
- Gan gyfeirio at y Côd Cyllido, dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei fod wedi cael cyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i drafod diweddaru'r Côd Cyllido sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu gyda'r Trydydd Sector ar faterion cyllidol ac ariannol. Dywedodd bod adolygiad o'r Cod Cyllido yn amserol o ystyried bod yr hinsawdd ariannol wedi newid gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gyllido ar sail Cytundebau Lefel Gwasanaeth a thrwy broses gomisiynu yn hytrach na'r dull traddodiadol o ddyrannu grantiau ac y dylai'r newid hwn gael ei adlewyrchu yn y Côd Cyllido.

  Dywedodd Y Cadeirydd ei fod yn bwysig bod y Trydydd Sector yn cael gwybod am y lefel o gyllid y mae'n debygol o'i dderbyn ar y cyfle cyntaf er mwyn helpu'r sector gyda'i broses gynllunio.

  Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth yr Aelodau bod proses y gyllideb wedi cychwyn yn llawer cynt y flwyddyn hon gyda thrafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal fis Gorffennaf. Roedd Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru wedi gohebu gyda'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddechrau mis Medi ac mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd y sefyllfa ariannol yn un heriol iawn yn y flwyddyn i ddod gyda thoriadau'n cael eu rhagweld o tua 5% neu £7.5m.
- Yng nghyswllt y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru, dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod gwaith y Comisiwn yn parhau a bod yr Awdurdod wedi cyflwyno ymateb fel rhan o'r ymgynghoriad. Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at gyfarfod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lle'r oedd Syr Paul Williams, Cadeirydd y Comisiwn wedi siarad a dweud bod arwyddion y bydd yn yr hirdymor lai o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) bod disgwyl y bydd argymhellion y Comisiwn yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.
- Gan gyfeirio at y Prosiect Gwrando Llais Cymunedol, rhoddodd Ms Lyndsey Williams, Rheolwr Prosiect ddiweddariad i'r Pwyllgor ar weithgareddau. Cyfeiriodd at gylchu holiaduron i gael gwybodaeth waelodlin ynglŷn â faint o ddealltwriaeth sydd gan gymunedau o wasanaethau cyhoeddus ac am gynnal llu o ddigwyddiadau ymgynghori i gael mwy o wybodaeth gefnogol ar gyfer y waelodlin. Soniodd y Swyddog hefyd am ddatblygiadau ynglyn â phroses y weledigaeth gymunedol oedd yn canolbwyntio i ddechrau ar Ward Seiriol a gweithgareddau mewn perthynas â'r lansiad swyddogol fydd yn dod ag aelodau'r gwahanol sectorau at ei gilydd i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r prosiect yn ceisio ei gyflawni. Bydd ymarfer gwerthuso'r prosiect yn cael ei gynnal gyda gwahoddiadau i dendro ar gyfer darparu'r

gwerthusiad wedi eu rhoi allan a chyfweliadau wedi eu cynnal. Yng nghyswllt Ymgynghoriad Gwneud Gwahaniaeth yr Awdurdod, dywedodd bod nifer o faterion ynglyn â dull ac amserlen yr ymgynghoriad wedi eu nodi.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod Adain Bolisi'r Awdurdod yn y broses o gasglu'r ymatebion i'r holiadur Gwneud Gwahaniaeth, sef cyfanswm o 900. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) bod materion ynglyn â'r dulliau a ddefnyddiwyd i wneud yr ymgynghoriad a'r cyfyngiadau o ran amser a osodwyd ar y broses yn cael eu hadolygu gyda'r bwriad o wneud gwelliannau. Trafododd y Pwyllgor y gwersi oedd i'w dysgu o broses Ymgynghori Gwneud Gwahaniaeth o safbwynt cyrraedd cynulleidfa ehangach a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael safbwyntiau pobl ifanc. Roedd yn cael ei gydnabod bod yr Ymgynghoriad Gwneud Gwahaniaeth wedi bod yn llwyddiannus o safbwynt cynhyrchu nifer uwch o ymatebion. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cymuned at ffyrdd o gydlynu ymgysylltiad gyda'r Trydydd Sector ac y roedd hynny wedi bod yn destun trafodaethau blaenorol ac mae'r broses bellach yn aeddfedu.

- Gan gyfeirio at y Rhaglen Waith a'r gweithdy, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mai'r bwriad yw defnyddio Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith i roi gwybodaeth ar gyfer Rhaglen Waith y Pwyllgor Cyswllt ac i gynllunio ar sail hynny.

## 3 BWRDD GWASANAETH LLEOL

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Tristan Pritchard, Rheolwr Uned Partneriaeth Gwynedd a Môn i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i annerch yr Aelodau ynglyn a gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd.

Cafwyd diweddariad gan Reolwr yr Uned Bartneriaeth ar y datblygiadau hyd yn hyn ar ôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd (BELLC) drwy gyfeirio at y canlynol –

- Un o'r strategaethau allweddol yn cynnwys Plant a Phobl Ifanc, Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Lles a'r Strategaeth Gymunedol i ffurfio un Strategaeth Integredig i Wynedd a Môn. Mae'r broses hon wedi ei chynllunio, ei gyrru a'i chraffu drwy greu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd gyda'r sector gwirfoddol yn bartner llawn.
- Sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd fel y brif bartneriaeth strategol i'r holl wasanaethau o fewn ei ddyletswyddau, h.y. Plant a Phobl Ifanc, Iechyd a Lles, a Diogelwch Cymunedol.
- Modus Operandi lle mae'r BELLC yn nodi'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Integredig yn cael ei gefnogi gan is-strwythur yn ffocysu ar ganlyniadau. Y Cynllun Integredig yw'r prif gerbyd ar gyfer gwireddu'r blaenoriaethau a osodwyd.
- Ffocws ar wella ymgysylltiad, cydberchnogaeth a dileu ffiniau sefydliadol.
- Y Cynllun Integredig fel rhaglen ataliol. Blaenoriaethau cynnar y BELLC sy'n cynnwys yr Iaith, Tlodi, yr Economi a chryfhau ymgysylltiad.
- Nodau ac Amcanion yr Uned Partneriaeth ar y Cyd, yn cynnwys ychwanegu gwerth ac arwain ar faterion sydd angen ymyrraeth strategol ar y cyd.
- Strwythur llywodraethu gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd yn gosod y cyfeiriad strategol; Bwrdd Darparu er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol a Grwpiau Darparu / Prosiect yn cyflawni canlyniadau. Mae'r strwythur llywodraethu wedi ei ddylunio fel bod y pwyslais yn fwy ar gyflawni canlyniadau nag ar gylch o gyfarfodydd gyda'r BELLC yn comisiynu amcanion clir mewn meysydd penodol i'w gwireddu gan y grwpiau darparu a phrosiect .
- Camau nesaf, yn cynnwys ffurfio Cynllun Integredig Sengl gyda'r broses honno eisoes yn cael ei gweithredu.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau i Reolwr yr Uned Bartneriaeth ar y wybodaeth a gyflwynwyd. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor yn y man gael cyflwyniad ac/neu wybodaeth ar weithgareddau uniongyrchol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd. Dywedodd Rheolwr yr Uned Bartneriaeth y byddai'n hapus i wneud hynny unwaith y byddai'r grwpiau thematig/prosiect wedi mynd drwy'r sianelau adrodd yn ôl ac y byddai hefyd yn rhannu'r Cynllun Integredig Sengl drafft gyda'r Pwyllgor.

Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn - cyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ddod i fodolaeth roedd yna strwythur lleol o grwpiau thematig gyda'r sector gwirfoddol fel rhan o'r



DRAFT

strwythur hwnnw. Roedd ganddo rai pryderon gyda'r trefniadau'n cael eu taenu dros y ddwy sir y byddai rôl y sector gwirfoddol yn lleihau a phwysleisiodd ei bod yn bwysig parhau i ymgynghori gyda'r sefydliadau llai.

Dywedodd y Rheolwr Uned Partneriaeth mai'r nod yw cadw gweithgaredd lleol a bod gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu model gwahanol o weithio, e.e. drwy weithdai. Tra bod yna risg y bydd cysylltiadau lleol yn cael eu glastwreiddio, gall y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd gymryd mantais o'r wybodaeth sydd yna am gymunedau a'u hanghenion ac sy'n cael ei chynhyrchu gan brosiectau fel y Prosiect Gwrando Llais Cymunedol.

**Nodwyd y wybodaeth fel y'i cyflwynwyd.**

**Camau Gweithredu'n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i gysylltu gyda'r Rheolwr yr Uned Partneriaeth i drefnu i'r Pwyllgor Cyswllt dderbyn, yn y man, wybodaeth am weithgareddau uniongyrchol y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd yn ogystal â chopi o'r Cynllun Integredig Sengl drafft.**

## 4 FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU GOFAL IECHYD A CHYMDEITHASOL INTEGREDIG

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor ddogfen ymgynghori ar y Fframwaith Darparu Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig ynghyd â gohebiaeth a datganiad ysgrifenedig gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Roedd y dogfennau yn nodi'r amcanion o roi'r Fframwaith ymlaen mewn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau gan boblogaeth sy'n heneiddio yn ogystal â manteision integreiddio o ran creu mwy o gysondeb o ran canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol, newid yn ffocws y gofal o'r ysbytai i'r cartref a chanolbwyntio ymyrraeth gynnar, ail-alluogi a gofal canolraddol mewn un system.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod yr amserlen ar gyfer ymateb i'r ddogfen uchod yn gyfyngedig a dywedodd wrth y Pwyllgor bod grŵp tasg eisoes wedi ei sefydlu ers mis Mawrth i hyrwyddo'r gwaith o integreiddio gwasanaethau gyda'r Sector Iechyd. Eglurodd bod disgwyl i bob Cyngor a Bwrdd Iechyd Lleol partner gyflwyno datganiad wedi ei gytuno a'i arwyddo ar gyfer integreiddio gwasanaethau i bobl hyn gydag anghenion dwys erbyn diwedd mis Ionawr 2014. Cynigiodd y dylai grŵp o bartneriaid yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol, sector annibynnol, aelodau etholedig a'r swyddogion gyfarfod i sefydlu gwaelodlin gychwynnol ar gyfer symud ymlaen gyda gwasanaethau integredig gydag iechyd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013 o safbwynt cael dealltwriaeth o'r hyn sydd eisoes yn ei le a pha waith integreiddio pellach sydd ei angen ac yn bosibl. Dywedodd ei bod, fel y swyddog proffesiynol, yn cefnogi'r cynigion a'i bod yn awyddus i symud ymlaen gyda hwy ac i ddefnyddio'r trefniadau o fewn y Pwyllgor Cyswllt fel marciwr.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gofynnwyd cwestiynau am y sefyllfa ynglŷn ag adnoddau; ynglyn â chronni adnoddau ac a oedd yna ddigon o adnoddau ar gael i weithredu'r cynigion yn y Fframwaith yn llawn. Crybwyllwyd hefyd sut y gallai canlyniad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ddylanwadu ac/neu ffitio i mewn gyda chynigion y Fframwaith o ran yr hyn y gall y Comisiwn ei weld fel y cerbyd gorau ar gyfer darparu gofal cymdeithasol i bobl hŷn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod yn rhaid i'r pwynt cychwyn fod ar ffurf trafodaeth ynglyn â beth sydd angen rhoi sylw iddo ym Môn ac i berthnasu cynigion y Fframwaith i'r cynlluniau cyfredol ym Môn.

**Nodwyd beth oedd gofynion y dogfennau.**

**Camau Gweithredu yn Codi: Y Cyfarwyddwr Cymuned i gydlynu trefniadau ar gyfer cyfarfod gyda phartneriaid mewn ymateb i gynigion Fframwaith gyda golwg ar sefydlu gwaelodlin i wasanaethau integredig ym Môn mewn paratoad ar gyfer rhyddhau Datganiad o Fwriad erbyn diwedd Ionawr 2014.**

## 5 RHAGLEN TRAWSNEWID CORFFORAETHOL Y CYNGOR

Oherwydd absenoldeb Reolwr y Rhaglen Drawsnewid Gorfforaethol, rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) grynodeb i'r Pwyllgor o nodau ac amcanion rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yr Awdurdod a'r strwythur ar gyfer ei darparu. Cyfeiriodd at y tri Bwrdd Rhaglen a'u themâu o amgylch rhagoriaeth gwasanaeth; menter, a thrawsnewid busnes ac i is-strwythur y byrddau

prosiect sy’n ffocysu ar themâu penodol.  Ehangodd Arweinydd y Cyngor ar y ffrydiau gwaith sydd o dan bob Bwrdd Rhaglen.

Holodd Prif Swyddog Medrwn Môn a fydd y Rhaglen Drawsnewid Gorfforaethol yn cael effaith ar gysylltiadau’r Awdurdod gyda’r gymuned a gyda’r Trydydd Sector o ran cyflwyno ffyrdd newydd o gefnogi’r sector a chymunedau.  Dywedodd y byddai’n gwerthfawrogi cael trafodaeth ynglyn â’r mater hwn.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod ffrwd waith wedi ei sefydlu sy’n delio â gofal cwsmer ac y byddai’r Trydydd Sector yn cael ei gynnwys mewn ymgynghori yn gysylltiedig â’r broses o nodi ffyrdd o wasanaethu’r cyhoedd yn well wrth i hynny esblygu a symud yn ei flaen.

**Nodwyd yr wybodaeth.**

**Camau Gweithredu’n Codi: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i baratoi crynodeb/ siart llif o strwythur y Rhaglen Drawsnewid Gorfforaethol i’w chylchu i aelodau sector gwirfoddol y Pwyllgor er gwybodaeth.**

## 6 MATERION ARIANNOL

Dywedodd y Prif Swyddog Medrwn Môn - wrth i baratoadau i ffurfio cyllideb 2014/15 fynd yn eu blaen, y byddai’r Trydydd Sector yn dymuno fod yn effro i brif themâu'r trafodaethau fel bod sefydliadau’n ymwybodol o’r rhagolygon ac yn gallu cynllunio yn unol â hynny.  Dywedodd y byddai’n beth da pe bai dyheadau’r Trydydd Sector yn cael eu bwydo i mewn i’r broses a bod y sector yn cael gwybod am ddatblygiadau yng nghyswllt cyfleon a bwriadau comisiynu’r Awdurdod.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod gwaith ar adolygu contractau’r Trydydd Sector yn parhau ac wedi cynnwys peth gwaith adferol yn ogystal â chryfhau’r prosesau.  Oherwydd materion capasiti mae’r dyddiad cwblhau’r gwaith wedi ei ailosod i Hydref/Tachwedd. Cadarnhaodd y Swyddog bod gohebiaeth wedi ei hanfon i’r Trydydd Sector ynglyn â sefyllfa ariannol ddangosol y Cyngor gyda thoriadau o tua 5% yn cael eu disgwyl.  Dywedodd bod yr Adran hefyd yn y broses o adolygu meysydd lle mae gweithgaredd a gwariant y Trydydd Sector yn cyd-fynd gyda bwriadau strategol a blaenoriaethau gwasanaeth.  Dywedodd bod yna nifer o feysydd lle gellid gwneud arbedion ond nad oes yr un ohonynt yn cynnig cyfleon hawdd - eisoes fe gytunwyd gyda’r Trydydd Sector y bydd blaenoriaethau’n cael eu rhannu ac mae ymdrechion yn cael eu gwneud i gryfhau’r broses naturiol o ymgysylltu tra hefyd yn cydnabod bod yna le i wella ar yr ochr ffurfiol h.y. ar y prosesau “caled”.  Y mae’n broses heriol i nodi arbedion o fewn Gwasanaethau Oedolion; mae cyfarfod o’r Bwrdd Pobl Hŷn eisoes wedi edrych ar wariant a chynlluniau ariannol mewn manylder gyda golwg ar ganfod ffordd o ddarparu gwasanaethau sy’n gynaliadwy.  Mae’r sefyllfa a’r broses ar draws y cyfan o’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gymhleth.  Mae rhai sefydliadau sector gwirfoddol unigol nad ydynt wedi ymateb i’r cais am wybodaeth ond mae ymdrechion yn cael eu gwneud i roi sefydlogrwydd i’r rhai y mae eu gweithgareddau yn cyd-fynd â blaenoriaethau’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd yn rhaid canfod arbedion o tua 5% a’i bod felly yn debygol y bydd yna doriadau yn y cyllid sy’n cael ei ddyrannu.

O safbwynt ymgynghori a chodi ymwybyddiaeth ynglyn â’r hyn sy’n digwydd gyda’r sefyllfa ariannol a phethau eraill, cafwyd awgrymiadau ynglyn â sut i gyrraedd at gymunedau e.e. drwy wahoddiad i gyfarfodydd o’r Pwyllgor Cyswllt ym mha gymuned y bynnag y byddant yn cael eu cynnal a thrwy lythyr newyddion Medrwn Môn ac ar y wefan.

**Nodwyd y sefyllfa.  Dim camau gweithredu pellach yn codi.**

## 7 CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 2:00 p.m. dydd Gwener, 17 Ionawr, 2014 yn Neuadd Sefydliad y Merched, Llanfairpwll.

**Mr Islwyn Humphreys**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# Ynys Môn

## THE ISLE OF Anglesey

# Cwrdd â'r Heriau

## Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2014/15



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk

cyngormon

@cyngormon

**CYNIGION CYLLIDEBOL CYCHWYNNOL Y PWYLLGOR GWAITH AR GYFER 2014/15**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei flaenoriaethau allweddol, ei strategaeth ariannol a'i gynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2014/15.

Mae'r ddogfen yma, fydd yn cael ei dosbarthu'n helaeth mewn ffurf electronig (copïau papur ar gael ar gais) yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad ynghyd â gweithdy Aelodau llawn a chyfres o gyfarfodydd hefo chydranddeiliaid i'w cynnal yn Ionawr a Chwefror 2014.

**CYD-DESTUN**

Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf ar yr Ynys, gyda chyllideb flynyddol o gwmpas £130m. Fel darparwr gwasanaethau allweddol, fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol a datblygu cynaliadwy, mae ganddo rôl ac effaith fawr yn lleol, drwy gyflogi, ansawdd bywyd a darpariaeth uniongyrchol o wasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddangos awch ac ymrwymiad i newid ers diwedd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ym Mai 2013.

Cafwyd sawl cam pwysig yn rhinwedd ei adferiad o ganlyniad i'r Cynllun Trawsnewid uchelgeisiol, sydd wedi rhoi pwyslais newydd ar lywodraethu corfforaethol, trawsnewid busnes a monitro perfformiad.

Roedd perfformiad y Cyngor Sir yn bositif iawn ar y cyfan yn 2012/13 - gyda gwasanaethau'n cymharu'n dda gyda chynghorau eraill yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae heriau pwysig o'n blaenau wrth i ni barhau i wireddu'r targedau a gytunwyd yn ddiweddar fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2013-17, gydag adnoddau sy'n lleihau.

Mae'r ddogfen yma'n gosod allan blaenoriaethau corfforaethol a themâu gwella cyfredol y Cyngor, y strategaeth ariannol tymor canolig a chynigion cyllidebol ar gyfer 2014/15.

## BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

Ymgynghorwyd ar nodau a blaenoriaethau strategol y Cyngor ac fe'u hamlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17.

Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn erbyn 2017 yw bod:

**"…yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion."**

Er mwyn cyflawni'r nod yma, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ei ymdrechion ar yr hyn sydd yn bwysig i drigolion.  Ar draws demograffeg, daearyddiaeth a'r mecanwaith ymgynghori gwahanol y blaenoriaethau cyson yw:

- **Cefnogi'r mwyaf bregus**
- **Datblygu'r Economi**
- **Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion**

Mae'r cynllun corfforaethol felly yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau yma. Fodd bynnag, cafodd y cynllun ei ddatblygu o fewn cyfnod o gwtogi ariannol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Dros gyfnod y cynllun, amcangyfrifir y bydd angen arbed oddeutu £15 miliwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarpariaeth gwasanaethau statudol megis addysgu ein plant, cefnogi'r mwyaf bregus, diogelu ein hamgylchedd drwy bolisïau cynllunio, casglu gwastraff a thrin ffyrdd.

Bydd gwasanaethau eraill yn cael eu darparu'n fwyfwy mewn gwahanol ffyrdd, gan ddarparwyr eraill, ac mae'n bosib na fydd y Cyngor yn gallu parhau i gyllido rhai gwasanaethau. Os yw cymunedau'n dal i weld gwerth yn y gwasanaethau yma, yna bydd angen dod o hyd i ffyrdd eraill o'u hariannu. Mae'r cynllun corfforaethol, felly, yn ceisio cynnig cydbwysedd rhwng ein dyheadau a'n gweledigaeth â'r rhagolygon ariannol. Dros y pedair blynedd nesaf, mae'r Cyngor wedi ei ymrwymo i:

- **Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn**
- **Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi**
- **Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi**
- **Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Ysgolion**
- **Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**
- **Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Bro**
- **Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd**

**RHAGOLYGON ARIANNOL**

Roedd llawer o sôn yn Natganiad hydref y Canghellor a gyflwynwyd i'r Senedd ar 6 Rhagfyr 2013 am y rhagolygon ar gyfer economi'r Deyrnas Unedig. Disgwylir gostyngiad o 1.4% yn y GDP eleni a chynnydd graddol wedyn dros y 5 mlynedd nesaf.

Rhagwelir cynnydd o £66.7m yn 2014/15 a £74m yn 2015/16 yng Nghyllidebau Llywodraeth Cymru. Ym marn Llywodraeth Cymru nid yw Datganiad yr hydref wedi gwneud rhyw lawer i newid y rhagolygon heriol ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru a dim ond newid bychan fydd i'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Rhagwelir mwy o lymder felly. I gael gwared ar y diffyg, mae'r Canghellor wedi dweud y bydd toriadau gwirioneddol pellach yng ngwariant llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Unedig hyd at 2017/18.

Ni fydd y rhan fwyaf o fudd-daliadau Lles ond yn codi 1%. Yr eithriadau yw pensiynau gwladol a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a gofalwyr y bydd eu budd-daliadau'n codi yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (2.7%).

Cafwyd newyddion am drethi Annomestig yn Lloegr a Chymru lle bydd cynnydd yn cael ei gapio ar 2% y flwyddyn yn hytrach na chodi yn ôl y Mynegai Prisiau Adwerthu fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, er y bydd raid i orchymyn ychwanegol fynd trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r trefniadau hynny ddod i rym yma.

Roedd setliad terfynol y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2014/15, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 11 Rhagfyr 2013, yn £96.432m. Mae hyn yn ostyngiad o £4.253m (4.2%) o gymharu â 2013/14. Rhyddhawyd cyllid arwyddol o £94.714m ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16. Oherwydd y gostyngiad hwn, bydd angen i'r Cyngor wneud arbedion sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf - cyfanswm o £20m erbyn 2018/19.

Mae hon yn her anferthol i'r Cyngor a Chynghorau eraill ar hyd a lled Cymru sydd am orfod ymdrechu'n galed i gynnal yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Gydag adnoddau sy'n prinhau a'r pwysau ychwanegol oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio ac amddifadedd cymdeithasol, bydd angen i'r Cyngor ystyried darparu gwasanaeth gyda phwyslais mwy o lawer ar drefniadau partneriaeth.

**STRATEGAETH ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL A CHYNIGION CYLLIDEBOL AR GYFER 2013/14**

Mae hon yn gyllideb anodd iawn sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau aruthrol a achoswyd gan y dirwasgiad economaidd a'r blynyddoedd o lymder o'n blaenau.

Rhaid i gynlluniau ariannol y Cyngor gefnogi'r blaenoriaethau strategol a gymeradwywyd a'r meysydd corfforaethol y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yn llwm ac, yn achos Ynys Môn, dengys y rhagolygon y bydd angen i'r Cyngor leihau gwariant gan £20m yn y pum mlynedd nesaf – ar gyllideb flynyddol o £129m, mae hynny'n cyfateb i ychydig dros 15%.

Y llynedd, dywedasom fod y swm yr ydym yn ei dderbyn ar gyfer adeiladu o'r newydd, gwella adeiladau ac isadeiledd hefyd yn gostwng. Bydd hyn yn gwneud ail-ddylunio gwasanaethau'n fwy heriol byth. 2014/5 yw blwyddyn ddiwethaf Menter Benthyca Llywodraeth Leol sy'n darparu cyllid ac yn caniatáu i'r Cyngor fenthyca arian ar gyfer gwella'r isadeiledd Priffyrdd. Bydd angen i'r Cyngor dalu o'i adnoddau ei hun am waith gwella pellach o'r math hwn a daw hyn yn anoddach wrth i gyllidebau leihau.

Fodd bynnag, cafwyd arwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn parhau i gefnogi Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac mae bidiau wedi cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo. Bydd haen gyntaf y cyllid, os caiff ei gymeradwyo, yn cyllido ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi i gychwyn yn 2014/15, gyda chyllideb o £7.9m, a bydd 50% ohono'n dod o grantiau.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau tymor hir yn codi o newidiadau demograffig yn wyneb poblogaeth sy'n heneiddio a'r cymhlethdodau cynyddol o ran gofalu am blant ac oedolion a'r newidiadau diwygio lles. O'r herwydd, mae cyllideb 2014/15 yn cael ei phennu i gwrdd â'r heriau hyn drwy ddiogelu gwasanaethau rheng-flaen i'r graddau y mae hynny'n bosib.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ceisio:-

- Diogelu'r gwasanaethau a ddefnyddir gan y mwyaf bregus;
- Osgoi, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, ychwanegu at yr anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu eisoes o ganlyniad i'r sefyllfa economaidd gyfredol.

Mae hon yn her anodd iawn oherwydd gostyngiad o dros £4m yn yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, Ynys Môn oedd ag un o'r seiliau refeniw isaf yng Nghymru a hynny oherwydd cyllid gan y Llywodraeth a refeniw o'r Dreth Gyngor. Ers 2013/14, mae'r Budd-dal Treth Gyngor wedi cael ei ddisodli gan Gynllun Cymorth y Dreth Gyngor sy'n rhoi hyd at 90% o gefnogaeth i'r aelwydydd tlotaf. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth y Dreth Gyngor yn llai na'r gostyngiad yn y biliau ac mae £400k ychwanegol wedi ei neilltuo i gwrdd â'r bwlch hwn.

Cyflwynwyd y cynigion hyn ar gyfer y gyllideb er mwyn gosod cyllideb gytbwys mewn blwyddyn a fydd yn un anodd iawn, trwy ddefnyddio mesurau unwaith ac am byth a pharhau i ddatblygu newidiadau i wasanaethau a fydd yn darparu arbedion cynaliadwy ac yn gostwng costau yn wirioneddol yn y dyfodol.

**Amcanion ariannol y Cyngor ar gyfer y tymor canol yw:-**

- Cefnogi blaenoriaethau strategol a meysydd y mae angen eu gwella yn y Cyngor;
- Rhoi sylw i faterion a godwyd trwy themâu Llywodraethu Corfforaethol;
- Rhoi sylw i faterion a godwyd gan Estyn a'r Bwrdd Adfer Addysg;
- Darparu gwasanaethau heb beryglu sefyllfa ariannol y Cyngor.

**Rydym yn cydnabod:-**

- Na ellir cwrdd â'r heriau ariannol trwy wneud mân doriadau ar draws y Cyngor;
- Bod angen trawsnewid gwasanaethau'n sylweddol;
- Bod angen rhesymoli adeiladau i wneud defnydd llawn ohonynt;
- Bod angen rhoi blaenoriaeth i'r bobl fwyaf bregus a hynny'n arwain at ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol.

**Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cynnig strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol sy'n seiliedig ar:-**

- Gostyngiadau gwariant sylweddol, sef £22m dros gyfnod o 5 mlynedd – sy'n cyfateb i 17%;
- Caniatáu swm cyfyngedig o arian i drawsnewid gwasanaethau yn 2014/15, yn arbennig felly yn y maes gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn gostwng gwariant yn sylweddol yn y dyfodol;
- Diogelu addysg a gofal cymdeithasol yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru;
- Caniatáu ar gyfer twf cyfyngedig iawn i gwrdd â diffygion mewn cyllidebau nad oes modd cwrdd â nhw'n rhwydd o ffynonellau eraill;
- Cydnabod her fawr adeiladu gorsaf niwclear newydd o bosib, ynghyd â datblygiadau ynni mawr cysylltiedig eraill, a'r angen i baratoi ar gyfer y newidiadau hyn;
- Yr angen i flaenoriaethu adnoddau cyfalaf prin i drawsnewid gwasanaethau a rhesymoli asedau;
- Yr angen i fanteisio ar bob ffynhonnell gyllido sydd ar gael trwy ymgeisio am grantiau allanol;
- Cydnabod bod angen mwy o adnoddau i gefnogi'r newidiadau yn y maes diwygio lles;
- Cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor bob blwyddyn.

Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi eu hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn y tabl isod:-

| | 2014-15<br>£'000 | 2015-16<br>£'000 | 2016-17<br>£'000 | 2017-18<br>£'000 | 2018-19<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb y flwyddyn flaenorol | 129,253 | 126,630 | 126,395 | 127,238 | 128,873 |
| Diogelu Ysgolion | 318 | 354 | 354 | 354 | 354 |
| Chwyddiant | 2,883 | 2,955 | 2,936 | 2,915 | 2,989 |
| Cynyddu incwm | -198 | -523 | -556 | -590 | -625 |
| Newidiadau demograffig | 500 | 500 | 500 | 500 | 500 |
| Cyllido costau Benthyca Digefnogaeth | 178 | 178 | 178 | 178 | 178 |
| Cyllido Costau Tâl Cyfartal | 296 | -7 | -7 | -7 | -7 |
| Cyfrifoldebau ychwanegol LGBI | 124 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd | 1,300 | 700 | 700 | 700 | 700 |
| Buddsoddi mewn newid | -100 | -300 | -500 | -500 | -100 |
| Cyfraniad i falansau | -500 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pwysau a nodwyd | 276 | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Blaenoriaethau newydd | 477 | 700 | 700 | 700 | 700 |
| Cynigion Arbedion | -7,416 | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Bwlch Cyllido | -761 | -4,792 | -3,462 | -2,615 | -2,973 |
| **Cyfanswm** | **126,630** | **126,395** | **127,238** | **128,873** | **130,589** |
| Wedi ei gyllido gan LIC | | | | | |
| RSG | 96,432 | 94,714 | 94,000 | 94,000 | 94,000 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | 545 | 545 | 545 | 545 | 545 |
| | 96,977 | 95,259 | 94,545 | 94,545 | 94,545 |
| Y Dreth Gyngor | 29,653 | 31,136 | 32,693 | 34,328 | 36,044 |
| | **126,630** | **126,395** | **127,238** | **128,873** | **130,589** |

Er mwyn cynnal y gyllideb gyfan ar y lefel angenrheidiol i gyfateb i'r adnoddau sy'n debygol o fod ar gael i'r Cyngor, mae'r tabl yn dangos y bydd angen i ni barhau i ostwng gwariant i gwrdd â'r bwlch a ragwelir yn y gyllideb.

Mae crynodeb o'r cynigion ar gyfer arbedion yng nghyllideb 2014/15 sy'n werth £7.416m i'w weld yn **Atodiad A.**

**ARBEDION EFFEITHLONRWYDD**

Er mwyn darparu’r lefel o arbedion sydd ei hangen, mae’r Cyngor wedi sefydlu tri Bwrdd Rhaglen i adolygu sut y caiff y Cyngor ei strwythuro a sut y bydd yn gweithredu yn y dyfodol.

Ar gyfer 2014/15, ac er mwyn pennu’r gyllideb, mae adolygiadau gwasanaeth cychwynnol wedi eu cynnal i ystyried cyfleoedd ar gyfer arbedion, effeithlonrwydd a chydweithio i wella’r ddarpariaeth o wasanaeth. Mae cyfleoedd eraill i arbed yn codi o bethau fel gwell prosesau caffael a newidiadau gweithredol i’r ddarpariaeth o wasanaeth wedi cael eu tynnu at ei gilydd i lunio strategaeth effeithlonrwydd ddrafft ac mae’r cynigion cyfredol i arbed sydd i’w gweld yn Atodiad C wedi cael eu tynnu o’r strategaeth honno. Bydd y strategaeth yn cael ei hystyried gan Aelodau yn y flwyddyn newydd. Mae angen gwneud mwy o waith i bwyso a mesur rhai o’r arbedion sy’n cael eu cynnig ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol a bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan y tri Bwrdd Rhaglen.

**Beth fyddwn yn ei wneud i wella ein gwasanaeth i chi yn ystod 2014/15**

Mae llawer o’r hyn y mae’r Cyngor yn ei ddarparu yn cael ei ragnodi’n genedlaethol ond mae’n bwysig, o fewn yr ystwythder a roddir iddo, fod gwasanaethau’n adlewyrchu amgylchiadau lleol a’r blaenoriaethau ac anghenion cymunedau Ynys Môn. Dyma ein cynigion ar gyfer 2014/15:

**Addysg ac Asedau**
Mae’r rhaglen moderneiddio ysgolion eisoes wedi cychwyn a'r Bwrdd Adfer Addysg yn monitro darpariaeth y Cyngor yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad. Mae adnoddau ychwanegol wedi’u neilltuo ar gyfer moderneiddio ein darpariaeth ysgolion. Yn ogystal, bydd llawer o'r agenda trawsnewid yn cael effaith ar asedau'r Cyngor ac, felly, er mwyn llwyddo, mae adnoddau pellach wedi eu sicrhau i yrru’r drefn rhesymoli asedau a darparu cyngor proffesiynol i'r gwaith o drawsnewid y gwasanaeth allweddol yma. Mae cyllidebau ysgolion wedi eu diogelu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, ar 0.9 % yn uwch na'r gyllideb 2012/13.

**Gofal cymdeithasol i oedolion**
Wrth i bobl fyw bywydau hirach ac iachach, mae angen cynyddu a newid y math o wasanaethau ar gael ar gyfer y boblogaeth sy'n oedolion a'u gofalwyr. Mae hyn yn golygu mwy o bwysau ar y maes gwariant yma. Mae adnoddau ychwanegol pellach wedi eu blaenoriaethu ar gyfer y gwasanaeth hwn ar gyfer 2014/ 15 i gefnogi'r newidiadau gaiff eu cyflwyno. Mae adolygiad pellach o wasanaethau ar y gweill gyda phartneriaid er mwyn darparu'r modelau gofal mwyaf cost effeithiol ellir eu cynnal i’r dyfodol.

**Trawsnewid gwasanaethau**
Bydd pob maes gwasanaeth yn trawsnewid yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf wrth i ni foderneiddio gwasanaethau. Bydd nifer o wasanaethau yn mynd drwy raglen drawsnewidiol yn 2014/15, wrth baratoi ar gyfer gostyngiad gwariant yn 2015/16 a thu hwnt. Felly, mae'r cyllidebau wedi eu gwarchod ar lefel ychydig is er mwyn rhoi digon o amser i sicrhau arbedion gwirioneddol a rhoi’r newidiadau ar

waith. Mae'r rhain yn cynnwys hamdden, gweithgareddau llyfrgell a diwylliannol. Caiff gwasanaethau ôl swyddfa yn cael ei ail-strwythuro a'u hail-fodelu yn ystod 2014/15 er mwyn moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio a gwneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor.

**TORIADAU I WASANAETHAU**

Gyda lefel yr arian sydd ar gael yn lleihau'n ddramatig flwyddyn ar ôl blwyddyn, bydd y lefel o ddarpariaeth mewn perthynas â rhai agweddau ar wasanaethau'n gorfod cael ei chwtogi. Mae hyn yn cael ei wneud mewn ffordd ofalus a mesuredig er mwyn lleihau'r risg a'r effaith ar ddinasyddion. Mae asesiadau risg wedi eu cynnal ac fe edrychwyd yn fanwl ar bob toriad tebygol mewn gwasanaeth. Nid yw darparu popeth yr ydym yn ei wneud ar yr un lefel gyda llai o arian yn bosibl ac felly, yn dilyn diogelu gwasanaethau statudol a rhai sy'n gwasanaethu'r mwyaf bregus, mae nifer o ostyngiadau tebygol wedi eu rhoi ymlaen yn yr atodiadau manwl sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon.

Os na chaiff yr arbedion i gyd eu derbyn, bydd angen cyflwyno opsiynau ymarferol a rhesymol eraill er mwyn darparu cyllideb gytbwys. Nid yw'n ymarferol i ddisgwyl i unrhyw un gwasanaeth ysgwyddo baich y gostyngiad mewn adnoddau ac felly rydym wedi cynllunio arbedion ym mhob gwasanaeth, ond wedi sicrhau y gellir lleihau'r effaith cymaint ag sy'n bosibl. Gellir gweld mwy o fanylion am yr arbedion a gynlluniwyd yn **Atodiad B.**

**Y DRETH GYNGOR, FFIOEDD A THALIADAU**

Wrth bennu'r gyllideb bob blwyddyn, rhaid penderfynu ar y symiau y bydd y cyhoedd yn eu talu, fel trethdalwyr y Cyngor ac fel defnyddwyr y gwasanaethau lle mae ffioedd a phrisiau'n cael eu talu. Gydag effeithiau'r dirwasgiad economaidd a phrisiau ynni, mae'r Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol iawn o'r pwysau sydd ar gyllidebau aelwydydd.

Golyga'r setliad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru na allwn osgoi cynyddu'r Dreth Gyngor yn 2014/15. Sail isel iawn sydd gan Ynys Môn gyda setliadau gwael a'r refeniw o'r Dreth Gyngor.

Mae adnoddau sy'n lleihau a phwysau cynyddol yn golygu, er mwyn diogelu'r mwyaf bregus mewn cymdeithas, fod cynnydd o 5% neu 94c yr wythnos yn y dreth gyngor i eiddo cyffredin ym Mand D yn cael ei gynnig. Mae 1% yn cynrychioli incwm tebygol o £291k. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud gasglu cymaint ag sy'n bosibl ond bydd pwysau anorfod yn codi yn sgil y newidiadau i fudd-dal y Dreth Gyngor.

Bydd cynnydd o leiaf 5% hefyd o ran y rhan fwyaf o'r ffioedd a'r taliadau anstatudol hefyd.

## DEFNYDDIO ARIAN WRTH GEFN

Rhagamcenir y bydd balansau cyffredinol y Cyngor oddeutu £6m erbyn 31 Mawrth 2014. Y lefel isaf a argymhellir i Gyngor o'n maint ni yw £5m. Bydd y balans o £1m dros y lefel a argymhellir yn helpu i ddiogelu gwasanaethau'r Cyngor yn y tymor byr hyd nes y bydd yr adolygiadau gwasanaeth manwl wedi eu cwblhau. Nid oes unrhyw gynigion i ni glustnodi arian wrth gefn yn y rownd gyllidebol bresennol.

## Y CYNLLUN CYFALAF 2014/15

Gwariant cyfalaf yw'r arian y mae'r Cyngor yn ei fuddsoddi mewn meysydd fel adeiladu tai ac adnewyddu, ffyrdd, pontydd, adeiladau ysgol a chartrefi gofal, ac sy'n cynhyrchu buddion dros nifer o flynyddoedd. Bydd peth o'r arian yn cael ei wario'n uniongyrchol ar asedau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt, ac mewn achosion eraill, bydd yn cael ei gynnig ar ffurf grantiau i sefydliadau neu unigolion er mwyn iddynt wneud y gwaith.

Daw'r arian i gyllido hyn o gyfuniad o grantiau llywodraeth, cyfraniadau o'r gyllideb refeniw, derbyniadau o werthu asedau a benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor. Mae'r pwysau ar wariant cyhoeddus a'r farchnad ddirwasgedig yn cael effaith ar y rhain yr un modd â phob un maes arall o weithgaredd y Cyngor, ac felly mae'r symiau sydd ar gael yn gyfyngedig ac mae'n rhaid gwneud dewisiadau gofalus.

Oherwydd y bydd llai o gyfleoedd am gyllid grant a gostyngiad cyffredinol mewn cyllid cyfalaf yn y dyfodol ynghyd ag ansicrwydd am lefel ac amseriad unrhyw dderbynion cyfalaf yn y dyfodol, bydd y cyfleoedd o ran cynlluniau cyfalaf ychwanegol yn brin iawn.

Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer eu cyflawni y mae'r Pwyllgor Gwaith wedi eu nodi yn y Cynllun Cyfalaf:-

- Rhesymoli ysgolion yn y dyfodol yn unol â gofynion y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.
- Gwaith i leihau costau rhedeg rhai o asedau'r Cyngor ac adolygu pa asedau sydd gan y Cyngor a sut y maent yn cael eu defnyddio, gan nodi'r rhai y gellir eu gwerthu.
- Rhaglenni Datblygu Economaidd ac Adfywio, yn gwneud defnydd llawn o gyfleoedd gyllido UE.
- Cyfleusterau ar gyfer lleihau a thrin gwastraff yn y tymor hir.

## GWEITHGAREDD CYFREDOL

Y prif faes y byddir yn ei ddatblygu yn y flwyddyn ariannol nesaf yw'r rhaglen i adolygu asedau'r Cyngor, gyda phartneriaethau lleol wedi eu penodi i gynnal gwerthusiad opsiwn. Tra bo'r gwaith hwn yn brosiect ynddo'i hun, y mae cysylltiad agos rhyngddo a chyflawni amcanion penodol yn y rhan fwyaf o feysydd allweddol, yn cynnwys:-

- Y ddarpariaeth o ofal i'r henoed
- Tai fforddiadwy
- Rhesymoli canolfannau hamdden
- Rhesymoli ysgolion.

Ar hyn o bryd, mae tri o brosiectau arian grant Ewropeaidd yn rhedeg sef y Tair Tref, Amgylchedd Arfordirol ac Isadeiledd Strategol – Safleoedd ac Eiddo.

Mae yna hefyd ddau brosiect mawr dan nawdd Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddynt, sef Cynllun Trosiannol Ysgolion yr 21ain Ganrif (adleoli Ysgol y Bont) a Menter Benthyca Llywodraeth Leol (MBLIL). Rhaglen o welliannau £5.3m dros dair blynedd i asedau priffyrdd yr Awdurdod yw'r MBLIL, a daw i ben yn 2014/15.

Yn ogystal, mae dau gynllun mawr sy'n cael eu cyllido'n fewnol hefyd yn mynd rhagddynt sef y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, yn cael ei chyllido o dderbyniadau cyfalaf a geir yn sgil gwerthu'r mân-ddaliadau ac sydd wedi eu neilltuo'n arbennig i'r pwrpas hwnnw ac y disgwylir ei gwblhau yn 2014/15, a'r gwaith gwella yn Safle Mwynderau Dinesig Penhesgyn, gyda chyllideb o £1m yn cael ei gyllido o arian wrth gefn cyllid grant gyda dyddiad cwblhau yn hwyr yn 2013/14, sydd ychydig yn hwyrach na'r disgwyl.

## EDRYCH YMLAEN AT 2014/15

Disgwylir i'r Cynllun Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi ddechrau yn 2014/15 gyda chyllideb o £7.9m, gyda 50% yn cael ei ariannu o gyllid grant.

Disgwylir y bydd gwaith yn dechrau ar safle mwynderau dinesig arall, naill ai yng Ngwalchmai neu Gaergybi.

Hefyd, mae cynlluniau i sicrhau y bydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer adfywio, yn cynnwys manteision tebygol o'r statws Parth Menter, y Rhaglen Ynys Ynni, a Rhaglen Môn a Menai.

**YMGYNGHORI**

Gofynnir am sylwadau gan gydranddeiliaid ar yr holl becyn gwella/cyllidebol, ond rydym angen eich adborth yn benodol ar:

- Cynyddu'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol er mwyn osgoi toriadau mawr i lefelau'r gweithgaredd presennol;
- Cynnal y gyllideb hamdden i ganiatáu amser ar gyfer newidiadau i'r ddarpariaeth;
- Blaenoriaethu twf yn y gwasanaethau plant a'r Rhaglen Ynys Ynni - **fel y dangosir yn Atodiad C**;
- Tybiaethau pellach y dylem eu gwneud o ran cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canol;
- Eich blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cyfalaf;
- Y cynnydd 5% arfaethedig yn y Dreth Gyngor (86c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D cyffredin) er mwyn helpu i ddiogelu gwasanaethau allweddol y Cyngor;
- Unrhyw awgrymiadau eraill sydd gennych ar arbedion effeithlonrwydd neu drawsnewid gwasanaethau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i breswylwyr Ynys Môn.

Bydd raid ymgynghori ynghylch y pecyn gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor, y Fforwm Ysgolion, Cynghorau Tref a Chymuned a'r gymuned fusnes ehangach.

**SUT I YMATEB**

**Lawrlwytho:**
Mae'r ddogfen hon, ynghyd â'r Gyllideb Refeniw Drafft Gychwynnol a'r atodiadau perthnasol, ar gael o dan yr adran 'Ymgynghoriadau' ar ein gwefan www.ynysmon.gov.uk.

**E-bost:**
ymgynghoriadcyllideb@ynysmon.gov.uk

**Post:**
Ymgynghoriad ar Gyllideb 2014/15
Swyddfa'r Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
Ynys Môn LL77 7TW

Bydd yr ymgynghoriad yn gorffen ar Ddydd Iau, Ionawr 30ain.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Cyflwynir adroddiad ar eich sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 10fed Chwefror 2014, a bydd y cynigion terfynol yn cael eu darparu ar gyfer y Cyngor Llawn ar 27ain o Chwefror 2014. Petaech eisiau fersiwn print bras, yna ffoniwch 01248 752128 os gwelwch yn dda.

ATODIAD A

## Crynodeb o'r gyllideb ddrafft arfaethedig ar gyfer 2014-15

| | 2013/14 Y Gyllideb Sail Gyfredol | SATC Symudiadau a Nodwyd | Newidiadau i'r Setliad Terfynol | Sefyllfa Ddigyfnewid Ddrafft ar ôl y Setliad Terfynol | Cynigion Arbedion (gweler Atodiad B) | Cynigion Twf (Gweler Atodiad C) | Cyllideb Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfadran** | | | | | | | |
| Dysgu Gydol Oes (yn cynnwys Ysgolion) | 47,672 | 140 | | 47,812 | -1,501 | 158 | 46,469 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 31,933 | 203 | | 32,136 | -1,894 | | 30,242 |
| Datblygiad Cynaliadwy | 21,347 | | | 21,347 | -2,969 | 50 | 18,428 |
| Dirprwy Brif Weithredwr | 13,583 | | | 13,583 | -1,052 | 68 | 12,599 |
| Corfforaethol a Craidd Democrataidd | 1,579 | | | 1,579 | | | 1,579 |
| **Cyfanswm** | **116,114** | **343** | **0** | **116,457** | **-7,416** | **276** | **109,317** |
| **Cyllid Corfforaethol** | | | | | | | |
| Cymorth Dewisol tuag at y Dreth | 50 | | | 50 | | | 50 |
| Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | -355 | | | -355 | | | -355 |
| Ardollau | 3,219 | | | 3,219 | | | 3,219 |
| Cyllid Cyfalaf a Llog | 7,185 | 598 | | 7,783 | | | 7,783 |
| Cyfraniad at yr arian wrth gefn | 500 | -500 | | 0 | | | |
| | **10,599** | **98** | **0** | **10,697** | **0** | **0** | **10,697** |
| **Cronfeydd wrth gefn ddygwyd ymlaen o 2013/14** | | | | | | | |
| Diwygio Lles | 50 | -45 | | 5 | | | 5 |
| Cronfeydd wrth gefn ar gyfer Gwella | 190 | | | 190 | | | 190 |
| Cronfa wrth gefn - cost newid | 500 | | | 500 | | | 500 |
| Cronfa wrth gefn - diswyddiadau | 1,000 | -100 | | 900 | | | 900 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Tâl a Graddfeydd | 450 | | | 450 | | | 450 |
| Cronfa wrth gefn Gyffredinol | 350 | -298 | | 52 | | | 52 |
| | **2,540** | **-443** | **0** | **2,097** | **0** | **0** | **2,097** |
| **Is-gyfanswm Cyllideb Ddigyfnewid** | **129,253** | **-2** | **0** | **129,251** | **-7,416** | **276** | **122,111** |
| **Pwysau:** | | | | | | | |
| - Newid Demograffig | | 500 | | 500 | | | 500 |
| - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | | 400 | | 400 | | | 400 |
| - Diwygio Lles | | 77 | | 77 | | | 77 |
| - Diogelu Ysgolion | | 318 | | 318 | | | 318 |
| Arian wrth gefn ar gyfer Arfarnu Swyddi | | 1,300 | | 1,300 | | | 1,300 |
| Cronfa wrth gefn Gorfforaethol ar gyfer chwyddiant | | 2,685 | | 2,685 | | | 2,685 |
| Cyfraniad o Arian wrth Gefn | | -240 | | -240 | | | -240 |
| | **0** | **5,040** | **0** | **5,040** | **0** | **0** | **5,040** |
| **Cyfanswm cyn Arbedion** | **129,253** | **5,038** | **0** | **134,291** | **-7,416** | **276** | **127,151** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | | | |
| Cyfanswm y Cyllid Allanol | 100,227 | | -3,795 | 96,432 | | | 96,432 |
| Y Dreth Gyngor | 28,023 | 1,630 | | 29,653 | | | 29,653 |
| Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 458 | | -458 | 0 | | | 0 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | 545 | | | 545 | | | 545 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **129,253** | **1,630** | **-4,253** | **126,630** | **0** | **0** | **126,630** |
| **Bwlch Cyllido** | **0** | **3,408** | **4,253** | **7,661** | **-7,416** | **276** | **521** |

**ATODIAD B**



| Crynodeb o'r Arbedion Arfaethedig | £'000 |
|---|---|
| | |
| **Dysgu Gydol Oes** | |
| | |
| **Gwasanaeth Addysg** | |
| Addysg Ganolog - Gostwng Grantiau i Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymunedol | -20 |
| Addysg Ganolog - Rhesymoli Clybiau Ieuenctid | -24 |
| Addysg Ganolog - Lleihau'r Cymorth i'r Mudiad Meithrin a WPPA | -3 |
| Addysg Ganolog - Gweithredu Argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen AAA ar gyfer Cefnogi Integreiddiad Cynradd | -80 |
| Addysg Ganolog - Cynyddu'r Rhent i Ddefnyddwyr Cymunedol yng Nghanolfan Ieuenctid Jesse Hughes | -1 |
| Addysg Ganolog - Defnyddio Grantiau Allanol ar gyfer Canolfan Ieuenctid Jesse Hughes | -20 |
| Addysg Ganolog - Torri'r Gyllideb Hyfforddi ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar | -7 |
| Addysg Ganolog - Cefnogaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Canolfannau | -13 |
| Addysg Ganolog - Gostwng Cymorth Blynyddoedd Cynnar - Lleihau Trwsio a Chynnal a Chadw | -17 |
| Addysg Ganolog - Gostwng Oed Mynediad i ysgolion o fis Medi 2014 | -210 |
| Addysg Ganolog - Lleihau nifer swyddi'r Wardeiniaid Cymunedol | -13 |
| Addysg Ganolog - Cau Ysgol Llandonna | -82 |
| Addysg Ganolog - Defnyddio Gweinyddiaeth y GEY | -35 |
| Addysg Ganolog - Rhoi'r gorau i ddarparu Pecynnau Ieuenctid | -7 |
| Addysg Ganolog - Neilltuo Adnoddau Ychwanegol ar gyfer Addysg o'r GCR oherwydd y cynnydd yn nifer y rhai sy'n gymwys i gael | -469 |
| Gostyngiad yn y Gyllideb sydd wedi'i datganoli i ysgolion | -500 |
| **Cyfanswm** | **-1,501** |
| | |
| **Cyfanswm ar gyfer Dysgu Gydol Oes** | **-1,501** |
| | |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | |
| | |
| **Gwasanaethau Canolog** | |
| Refeniw a Budd-daliadau - Newidiadau i Weinyddiaeth Costau Llys | -23 |
| Refeniw a Budd-daliadau - Newidiadau Staffio | -24 |
| Cyllid: Newidiadau Staffio | -50 |
| Cyllid: Cefnogaeth i ailstrwythuro'r gwasanaeth Cyfrifeg | -11 |
| Cyllid: Aildrafod y cytundeb Cludo Arian | -12 |
| Cyllid: Rhoi'r gorau i argraffu'r daflen Dreth Gyngor | -5 |
| Cyllid: Lleihau'r gyllideb argraffu a phapur ysgrifennu ac ati | -25 |
| Cyllid: Lleihau'r gyllideb i Bartneriaeth Gaffael GC | -18 |

ATODIAD B

| Crynodeb o'r Arbedion Arfaethedig | £'000 |
|---|---|
| | |
| Cyllid:  Leihau'r gyllideb ar gyfer offer cyfrifiadurol | -20 |
| Cyllid: Lleihau'r gyllideb ar gyfer trwyddedau cyfrifiadurol (hen system gyllid) | -7 |
| Cyllid: Lleihau'r gyllideb ar gyfer costau teithio | -10 |
| Cyllid: Arbedion effeithlonrwydd eraill | -7 |
| TGCh - lleihau staff a chostau rhedeg | -114 |
| Prif Weithredwr - Gostwng y Gyllideb Hyfforddi Ganolog AD | -39 |
| Prif Weithredwr - Dileu un swydd Weinyddol AD - Datblygu'r Gweithlu | -20 |
| Prif Weithredwr - Lleihau nifer y Mentrau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | -5 |
| Prif Weithredwr - Incwm o Brynu Gwyliau Blynyddol | -5 |
| Cyfreithiol - Cyfuno rheolaeth y Gwasanaethau Pwyllgor a Sgriwtini | -35 |
| CDC - Arbedion Lwfansau Aelodau | -88 |
| CDC - Lleihau cyllidebau ar gyfer gweithgareddau sifig a seremonïol | -24 |
| Cyfreithiol - Dileu swydd wag y Swyddog Sgriwtini | -36 |
| Polisi - Gostwng y gyllideb ar gyfer Sioe Môn | -11 |
| Polisi - Adolygu strwythurau staffio yn Polisi, Gwasanaethau Aelodau a'r Unedau Cefnogi Busnes | -75 |
| **Cyfanswm** | -664 |
| | |
| **Corfforaethol** | |
| Penaethiaid Gwasanaeth | -138 |
| Cynnydd yn y GCR ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | -250 |
| **Cyfanswm** | **-388** |
| | |
| **Cyfanswm ar gyfer Adran y Dirprwy Brif Weithredwr** | **-1,052** |
| | |
| **Datblygiad Cynaliadwy** | |
| | |
| **Cynllunio** | |
| Lleihau Cyflenwadau a Gwasanaethau | -5 |
| Ailstrwythuro Rheoli Adeiladu - Dileu un swydd | -25 |
| Ailstrwythuro Rheoli Adeiladu - Cyfuno gyda Gwynedd | -15 |
| Cyflwyno e-Gynllunio | -20 |
| Incwm o waith sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni | -75 |
| Llecynnau Agored - llai o wariant ar y Cefn Gwlad a'r Arfordir | -3 |
| **Cyfanswm** | **-143** |

ATODIAD B

| Crynodeb o'r Arbedion Arfaethedig | £'000 |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| Ailstrwythuro Gwarchod y Cyhoedd | -105 |
| Incwm o waith sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni | -5 |
| Lleihau Cyflenwadau a Gwasanaethau | -10 |
| Codi Ffioedd a Phrisiau | -45 |
| **Cyfanswm** | **-165** |
| | |
| **Gwastraff** | |
| Lleihau costau eiddo a chludiant yng Ngorsaf Drosglwyddo Penhesgyn | -50 |
| Lleihau'r Gyllideb Ôl-ofal yn Ardal 2, Penhesgyn | -20 |
| Cyllideb waith ddiwygiedig ar gyfer yr Adain Wastraff | -95 |
| Dulliau newydd ar gyfer casglu gwastraff o Ebrill 2014 | -215 |
| Cyllido prynu cerbydau newydd gan Biffa | -50 |
| Lleihau staff | -58 |
| Gostyngiad yn nifer y Tunelli o Wastraff Gweddilliol | -140 |
| Newidiadau i'r Ddarpariaeth Toiledau Cyhoeddusi | -104 |
| Lleihau Goramser ym Mhenhesbyn | -20 |
| | **-752** |
| | |
| **Eiddo** | |
| Ailstrwythuro Timau Eiddo | -180 |
| Rhesymoli Swyddfeydd | -34 |
| Gostyngiad mewn Lwfansau Car a Theithio | -35 |
| Gostyngiad o ran Trwsio a Chynnal a Chadw Stadau Diwydiannol ac Eiddo Amrywiol | -31 |
| Gostyngiad mewn Costau Contractau Glanhau | -40 |
| Gostyngiad o ran Trwiso a Chynnal a Chadw Adeiladau Gweinyddol | -39 |
| Gostyngiad mewn gwariant amrywiol, Adeiladau Gweinyddol | -5 |
| Lleihad yn nifer y staff tymhorol yn yr Adain Arforol | -15 |
| Gostyngiad o ran Trwsio a Chynnal a Chadw yn yr Adain Arforol | -30 |
| Incwm Arforol | -5 |
| Cynnydd yn yr Incwm o'r Rhenti ar gyfer Stadau Diwydiannol | -57 |
| **Cyfanswm** | **-471** |
| | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | |

**ATODIAD B**

| Crynodeb o'r Arbedion Arfaethedig | £'000 |
|---|---|
| | |
| Rheoli Fflyd - cael cerbydau tanwydd LPG yn lle rhai Diesel | -15 |
| Codi ffioedd parcio | -100 |
| Gostwng Gwasanaethau Bws | -89 |
| Gostyngiad yn y Gyllideb Goleuadau Stryd | -200 |
| Lleihad yn nifer y staff | -129 |
| Lleihau nifer y swyddi Croesi Plant ysgol | -25 |
| Gostyngiadau Cynnal a Chadw Priffyrdd | -475 |
| Gostyngiadau o ran Traffig a Hawliau Tramwy Cyhoeddus | -25 |
| **Cyfanswm** | **-1,058** |
| | |
| **Datblygu Economaidd** | |
| Cyllideb Weithredol | -85 |
| Cyllideb Staffio | -54 |
| **Cyfanswm** | **-139** |
| | |
| **Hamdden** | |
| Cyllideb Weithredol | -41 |
| Cyllideb Staffio | -106 |
| Cynnwys Cyllidebau Incwm er mwyn cwrdd â'r derbyniadau cyfredol | -74 |
| Cynnydd ychwanegol o 2% ar gyfer ffioedd a phrisiau | -20 |
| **Cyfanswm** | **-241** |
| | |
| **Cyfanswm ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy** | **-2,969** |
| | |
| **Cymuned** | |
| | |
| **Tai** | |
| Ailalinio'r Gyllideb gyda CRT | -52 |
| Lleihau'r defnydd o ymgynghorydd tai fforddiadwy | -15 |
| Cyfraniad gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig tuag at gostau gweinyddu Cofrestr Dai Gyffredin | -15 |
| Tai - rhewi swydd y Swyddog Ymweld yn yr Adran Dai | -15 |
| Tai - rhewi swydd y Swyddog Opsiynau Tai (Digartrefedd) | -10 |
| Tai - Gostwng costau gwely a brecwast drwy adnewyddu 2 o dai cyngor fel llety dros dro | -10 |
| **Cyfanswm** | **-117** |

ATODIAD B

| Crynodeb o'r Arbedion Arfaethedig | £'000 |
|---|---|
| | |
| | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Arbedion i'w cadarnhau | -1,048 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Arbedion Camerâu Goruchwylio | -177 |
| Gwasanaethau Plant - Arbedion i'w cadarnhau | -352 |
| | **-1,577** |
| | |
| **Diwylliant** | |
| Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgell | -95 |
| Staff yn ymddeol yn Oriel Ynys Môn | -22 |
| Lleihad yng ngraddfa ac oriau swydd gyfredol wedi i aelod o staff adael | -5 |
| Gostwng oriau agor Goleudy Ynys Lawd o 7 niwrnod i 6 yr un modd â safleoedd tymhorol eraill | -4 |
| Gostyngiad yng nghostau'r Pennaeth Gwasanaeth | -36 |
| Creu incwm - sesiynau paranormal dros nos yn Jêl Biwmares | -5 |
| Gostyngad yn y gyllideb ar gyfer gwaith hyrwyddo cyffredinol | -4 |
| Gostwng oriau agor Jêl Biwmares o 7 niwrnod i 6 yr un modd â safleoedd tymhorol eraill | -3 |
| Gostyngiad yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer gweinyddiaeth ganolog yn yr Adran Hamdden a Threftadaeth | -12 |
| Lleihad yn y grant Celfyddydau a ddosberthir i gyrff allanol | -5 |
| Lleihau costau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | -2 |
| Gostyngiadau amrywiol o gyllideb y Pennaeth Gwasanaeth a theithio canolog | -3 |
| Gostyngiadau cyffredinol yn y cyllidebau cefnogol | -4 |
| **Cyfanswm** | **-200** |
| | |
| **Cyfanswm yr Adran Cymuned** | **-1,894** |
| | |
| **Cyfanswm y Cynigion o ran Arbedion** | **-7,416** |
| **Cyfanswm y Targed Arbedion** | **-7,750** |
| | |

**ATODIAD C**

| | Crynodeb o Fidiau Twf | £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | **Dysgu Gydol Oes** | | |
| 1 | Cyllideb wedi ei dirprwyo i'r ysgol ar gyfer Canolfan Y Bont 2014/2015. | 158 | Cynnydd yn y gyllideb sail - bydd yn gwneud y bwlch cyllido'n fwy. |
| | | **158** | |
| | | | |
| | **Dirprwy Brif Weithredwr** | | |
| 2 | Adnoddau Dynol - diffyg cyllidebol | 20 | Newid parhaol wedi'i gyllido o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwella Perfformiad |
| 3 | Refeniw a Budd-daliadau - Gostyngiad yn y Grant Gweinyddu Budd-daliadau Tai | 48 | Cynnydd yn y gyllideb sail - bydd yn gwneud y bwlch cyllido'n fwy. |
| | | **68** | |
| | | | |
| | **Datblygiad Cynaliadwy** | | |
| | | | |
| 4 | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd - Ffioedd Rheoliadau Adeiladu | 50 | Cynnydd yn y gyllideb sail - bydd yn gwneud y bwlch cyllido'n fwy. |
| | | **50** | |
| | | | |
| | **Cyfanswm** | **276** | |
| | | | |

This page is intentionally left blank

## Model Llywodraethu: Byrddau'r Rhaglen Drawsnewid

V8

Pwyllgor Gwaith

Sgriwtini

TUA

Bwrdd Rhaglen Ynys Fenter

Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaethau

Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes

Byrddau Rhaglen Partneriaeth/Cydweithio
*BGLl, Ynys Ynni)*

Rheolydd Rhaglen Gorfforaethol

Dogfen Crynhoi Rhaglen

Dogfen Crynhoi Rhaglen

Dogfen Crynhoi Rhaglen

***Rheolydd Rhaglen YF***
*Danielle Edwards (dros dro)*

***Rheolydd Rhaglen RhG:***
*Gethin Morgan*

***Rheolydd Rhaglen TB:***
*Danielle Edwards*

Y Penaethiaid

Grŵp Adolygu Perfformiad

Swyddfa Perfformiad, Cynllunio a Phrosiectau Corfforaethol (CPPPO)

Swyddfa Perfformiad, Cynllunio a Phrosiectau Corfforaethol (CPPPO)

Adroddiadau Amlygu Rhaglen/Prosiect

Cynlluniau Darparu Gwasanaeth *(gan gynnwys Mandadau Rhaglenni/Prosiectau)*

Prosiectau a Rhaglenni BYW yn y Cyngor (gan gynnwys cynlluniau cydweithio a phartneriaethau)

Rhaglenni a Phrosiectau NEWYDD yn y Cyngor (gan gynnwys cynlluniau cydweithio a phartneriaethau)

### RÔL

- Awdurdod a goruchwyliaeth
- Materion a uwchgyfeiriwyd o'r Byrddau Rhaglen i'r Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn unol â'r Cyfansoddiad a'r Cynllun Dirprwyo

- Gwireddu manteision y Cynllun Trawsnewid
- Sicrhau bod rhaglenni/ prosiectau yn cael eu rheoli a'u cyflawni.
- Dyrannu cyllid

- Cefnogi'r Byrddau Rhaglen
- Nodi'r holl ddibyniaethau a rhyngddibyniaethau
- Nodi a rheoli risgiau/materion
- Rheoli cyfathrebu
- Adrodd i'r Byrddau yn briodol ac yn amserol
- Rheoli Cyllidebau Rhaglenni

- Adolygu mandadau arfaethedig
- Ystyried blaenoriaethu
- Uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd rhaglen priodol

- Cynnal cofrestr RhP
- Derbyn/cadw dogfennau
- Cynnal arferion RhP da

- Nodi prosiectau/rhaglenni newydd yn unol â'r 'Proses ar gyfer Aseinio Prosiectau/ Rhaglenni Newydd'
- Cyflwyno dogfennau RhP, gan gynnwys adroddiadau.

This page is intentionally left blank